



**Adroddiad Blynyddol**  
y  
**Bwrdd Monitro Annibynnol**  
yng

**Ngharchar ei Mawrhydi CAERDYDD**

ar gyfer Blwyddyn adrodd  
1<sup>af</sup> Medi 2017 hyd at 31<sup>ain</sup> Awst 2018

Cyhoeddwyd  
(Chwefror 2019)



*Monitro tegwch a pharch at bobl yn y ddalfa*

**Adrannau Rhagarweiniol**

<b>Adran</b>	<b>Pwnc</b>	<b>Tudalen</b>
<b>1</b>	<b>Swyddogaeth Statudol</b>	<b>3</b>
<b>2</b>	<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>4</b>
<b>3</b>	<b>Disgrifiad o'r Sefydliad</b>	<b>5</b>

**Adrannau Tystiolaeth**

<b>4</b>	<b>Diogelwch</b>	<b>6</b>
<b>5</b>	<b>Cydraddoldeb a Thegwch</b>	<b>7</b>
<b>6</b>	<b>Gwahanu/Uned Gofal a Gwahanu</b>	<b>8</b>
<b>7</b>	<b>Llety (gan gynnwys cyfathrebu)</b>	<b>9</b>
<b>8</b>	<b>Gofal iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl a gofal cymdeithasol)</b>	<b>10</b>
<b>9</b>	<b>Addysg a Gweithgareddau Eraill</b>	<b>11</b>
<b>10</b>	<b>Gwaith, Hyfforddiant Galwedigaethaol a Chyflogaeth</b>	<b>12</b>
<b>11</b>	<b>Paratoi ar gyfer Adsefydlu</b>	<b>13</b>

	<b>Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB)</b>	<b>14</b>
	<b>Ceisiadau i'r BMA (IMB)</b>	<b>15</b>

### 1 SWYDDOGAETH STATUDOL Y BMA

---

Mae Deddf Carchardai 1952 yn galw ar i bob carchar gael ei fonitro gan Fwrdd Annibynnol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o blith aelodau o'r gymuned lle lleolir y carchar neu'r ganolfan.

Yn benodol mae'n rhaid i'r Bwrdd:

- (1) fodloni ei hun ynghylch triniaeth ddyngarol a theg y sawl sydd dan glo yn eu carchar ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni i'w paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
- (2) adrodd yn ddi-oed i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae wedi ymddiried awdurdod ynddo fel y gwêl yn briodol, am unrhyw bryderon sydd ganddynt.
- (3) **adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda mae'r carchar wedi cyflawni safonau a diwallu'r gofynion a roddwyd arno a pha effaith mae'r rhain wedi eu cael ar y sawl sydd yn y ddalfa.**

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithlon, mae gan ei aelodau hawl i fynediad i bob carcharor a phob rhan o'r carchar yn ogystal â chofnodion y carchar.

### Gwelliannau

---

Gwelodd cyfnod yr adroddiad nifer o ddatblygiadau cadarnhaol o fewn y carchar. Roedd dychwelyd i amserlen lawn o weithgareddau pwrpasol a chyfnodau cymdeithasu rheolaidd yn gam pwysig ymlaen. Gwelodd y newid derbyniol hwn ddychwelyd at raglen lawn o addysg, hyfforddiant a gweithgareddau gwaith ac fe gafodd effaith gadarnhaol amlwg ar y carchar. (Tudalennau 11 a 12). Roedd cyflwyno cynllun Gweithiwr Allweddol yn ddatblygiad addawol hefyd. (Tudalennau 6, 9 a 12)

### Y prif feirniadaethau

---

1. Bu cynnydd o bwys mewn hunan-niweidio a thrais, er bod y carchar wedi ymateb i hyn ac roedd lefelau'n disgyn ar ddiwedd y cyfnod adrodd. (Tudalen 6)
2. Methodd y carchar fodloni gofynion cyfreithiol Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) Rhan 1. Roedd y diffyg staffio yn y tîm mewngymorth yn parhau, er gwaethaf y galw mawr am ofal iechyd meddwl. (Tudalen 11)
3. Roedd yn siomedig nodi nad oedd y flaenoriaeth newydd a roddwyd i gydraddoldeb ac amrywiaeth ar ddechrau'r cyfnod adrodd wedi parhau. Daeth cyfarfodydd rheolaidd y grŵp cydlynau i ben ac ni fu dilyniant ar gynlluniau. (Tudalen 7)
4. Roedd gan y bwrdd nifer o bryderon perthnasol i reoli'r dynion ar adain B1 (carcharorion agored i niwed). Roedd y pryderon hyn yn cynnwys diffyg ymarfer corff rheolaidd, diffyg rhaglen addysg benodol a defnydd amhriodol o adain B1. (Tudalennau 9, 11 a 12)
5. Roedd diffyg llety adeg rhyddhau yn brif destun gofid o fewn y broses adsefydlu. Roedd cyfran uchel o ddynion heb lety ar ddiwrnod eu rhyddhau; roedd hyn nid yn unig yn annynol, ond yn ffactor bwysig mewn ail droseddu. (Tudalen 13)

### Prif Feysydd Datblygu

---

#### I'R GWEINIDOG

Mae cynyddu lefelau staffio wedi cael effaith gadarnhaol amlwg ar y carchar. Mae llawer i'w wneud o hyd a bydd gofyn am welliannau parhaol mewn adnoddau er mwyn cyrraedd y nod.

#### I LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Adolygyu polisi tai mewn perhynas â chyn-garcharorion fel mater o'r brys mwyaf ac adolygu darpariaeth gofal iechyd ar gyfer gofal iechyd meddwl sylfaenol mewn carchardai.

#### I'R GWASANAETH CARCHARDAI

Cyd-weithio â Chynulliad Cymru i sicrhau ymagwedd ar y cyd at ddarparu llety ar gyfer cyn-garcharorion a gyda GIG Cymru i gydymffurfio â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) mewn carchardai.

#### I'R LLYWODRAETHWR

Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gwaith da sydd wedi ei wneud yn y carchar yng nghyfnod yr adroddiad hwn. Rydym yn edrych ymlaen at weld y carchar yn adeiladau ar hyn trwy, er enghraifft, sicrhau bod trefniadau staffio yn caniatáu gweithredu cywir ar gynllun y Gweithiwr Allweddol.

Rydym yn credu y dylid cael ffocws newydd ar bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y carchar yn ogystal ag adolygiad o drefniadau ar gyfer carcharorion agored i niwed.

### 3 DISGRIFIAD O'R CARCHAR

---

Mae CEM Caerdydd wedi ei leoli yng nghanol y Ddinas. Carchar Categori B i ddynion yw; carchar hyfforddi lleol sy'n gwasanaethu De Ddwyrain Cymru a Chymoedd De Cymru, er bod nifer cynyddol o garcharorion yn cael eu trosglwyddo yma o garchardai yn Lloegr. Mae'n darparu yn bennaf ar gyfer carcharorion sydd wedi cael dedfrydau byrion, carcharorion ar remánd a charcharorion sy'n aros i gael eu dedfrydu. Mae gan y carchar Lety Trwyddedig Normal o 539 a chapasiti gweithredu o 790, gyda'r rhan fwyaf o gelloedd yn dal dau garcharor. Agorodd y carchar yn 1827 ac mae rhan helaeth o'r eiddo yn dal i gynnwys tair adain o oes Fictoria. O ganlyniad i raglen adnewyddu o bwys yn 1996 agorwyd tair adain letya newydd. Mae yn y carchar ystod o adnoddau eraill hefyd, gan gynnwys campfa, cyfres o weithdai ac ystafelloedd dosbarth. Agorwyd canolfan gofal iechyd newydd ym mis Mai 2008, sy'n darparu 21 gwely.

Mae trefn arferol CEM Caerdydd yn cynnwys addysg llawn amer, cyflogaeth yng ngweithdai'r carchar a chyrsgiau hyfforddi. Mae yma uned adsefydlu sy'n cynnig rhaglenni ymddygiad troseddol amrywiol a chyrsgiau wedi eu seilio ar waith. Mae uned dadwenwyno hefyd yn cadw carcharorion tymor byr i'w paratoi ar gyfer eu rhyddhau.

Mae ystod o ddarparwyr cyhoeddus a masnachol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau o fewn y carchar. Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro sy'n darparu gwasanaethau iechyd, darperir addysg a sgiliau gan HMPPS yng Nghymru a GeoAmey sy'n gofalu am gynnal a chadw'r safle. Mae gwasanaethau eraill sydd yn dibynnu ar ddarparwyr allanol yn cynnwys gwasanaethau hebrwng ac adsefydlu cymunedol. Mae nifer o sefydliadau gwrifoddol, megis Ymddiriedolaeth St Giles a PACT, yn darparu gwasanaethau hefyd.

## B Tystiolaeth adrannau 4 – 11

---

### 4 DIOGELWCH

---

1. Fel gyda'r rhan fwyaf o garchardai eraill yng Nghymru a Lloegr, gwelodd CEM Caerdydd gynnydd mewn trais a hunan-niweidio. Bu chwe ysgarmes rhwng carcharorion ym mis Ionawr 2018 a 17 ym mis Awst. Roedd carcharorion yn ymosod ar garcharorion wedi cynyddu o saith i 13 yn yr un cyfnod. Adroddwyd mai'r prif resymau am yr ymosodiadau hyn oedd bwlio a dial. Er gwaethaf y cynnydd, mae'n ymddangos bod gan CEM Caerdydd lefel is o ymosodiadau na llawer carchar arall lleol yng Nghategori B.
2. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn ystod 2018 yn y nifer o ddigwyddiadau lle defnyddid grym hefyd, gyda 188 digwyddiad yn ystod chwarter olaf y cyfnod adrodd.
3. Testun pryder oedd y cynnydd o bwys yn yr achosion o hunan-niweidio yn ystod y flwyddyn adrodd hon, gan godi o 13 ym mis Medi 2017 i 60 ym mis Awst 2018. Cynhaliodd y tîm Mwy Diogel yn y Ddalfa werthusiad i'r digwyddiadau o hunan-niweidio ym mis Awst ac roedd dros 50% o'r dynion oedd wedi hunan-niweidio wedi cyfranogi. Torri eu hunain oedd y rhan fwyaf o weithredoedd hunan-niweidio a'r rheswm pennaf a roddwyd am wneud hyn oedd bwlio, awydd am "vapes" a rhwystredigaeth. O'r dynion oedd wedi cwblhau'r holiadur, dywedodd 47% y dylent fod wedi siarad â'r staff yn hytrach na hunan-niweidio.
4. Rhoddwyd polisi mewn grym ym mis Mai 2018 o beidio ag ildio i'r galw am "vapes" gan ddynion oedd yn bygwth hunan-niweidio. At hyn roedd y tîm Mwy Diogel yn y Ddalfa wedi cynnal sesiwn ôl-drafodaeth gyda phob dyn yn dilyn digwyddiad o hunan-niweidio. Roedd y digwyddiadu o hunan-niweidio wedi lleihau'n sylweddol adeg yr ysgrifennu.
5. Yn ystod 2017/2018 roedd cynnydd o 20% yn y nifer o ACCTs (Gaith Tîm Asesu Gofal yn y Ddalfa) agorwyd. O'r 73 ACCT agorwyd ym mis Awst 2018, roedd 33% wedi cau o fewn 24 awr. Agorwyd y rhan fwyaf o ACCTs yn ystod y broses dderbyn neu ar y noson gyntaf ar yr adain. Rheolwyd proses ACCT yn dda. Gwelwyd dogfennau ACCT yn rheolaidd yn ystod y cyfnod monitro ac yn ddiethriad nodwyd eu bod wedi eu cwblhau'n gywir.
6. Bu 3 marwolaeth yn y ddalfa yn ystod blwyddyn yr adrodd; digwyddodd un mewn hosbis ac roedd i'w ddisgwyl a digwyddodd dau annisgwyl yn y carchar. Nid oedd cwêst ar y ddwy farwolaeth olaf wedi digwydd erbyn 31 Awst 2018 ac roedd disgwyl cwêst pellach ar farwolaeth a ddigwyddodd yn 2016.
7. Ym mis Gorffennaf 2018 dechreuodd CEM Caerdydd system gweithiwr allweddol, RhTD (Rheoli Troseddwr yn y Ddalfa) lle gwelir pob carcharor gan weithiwr allweddol penodedig bob wythnos. Cafodd hyn ei ddatblygu yn gynyddrannol. Derbyniodd Aelodau'r BMA sylwadau cadarnhaol iawn gan ddynion â gweithwyr allweddol. Y gobaith yw y bydd hyn yn lleihau'r lefelau o hunan-niweidio a thrais trwy ganiatáu i ddynion siarad trwy faterion mewn dull a gynlluniwyd. At hyn, roedd y Tîm Mwy Diogel yn y Ddalfa wedi ei leoli yn y Ganolfan Gofal Iechyd, gan ganiatáu cysylltiad mwy clos rhwng y tîm, staff Gofal Iechyd a staff iechyd meddwl. Mae croeso i'r ddwy fenter a gallant gael effaith dda ar ddiogelwch y carchar. Fodd bynnag, roedd adroddiadau'n dal i ddod i law bod staff yn cael eu tynnu o'r gwaith hyn i ymwneud â dyletswyddau eraill, er gwaethaf y cynnydd mewn lefelau staffio yn y carchar.

1. Yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn gwelwyd parhad yn y cyfeiriad newydd a'r pwysigrwydd a roddwyd i'r maes hwn gan y Llywodraethwr newydd; cynhaliwyd cyfarfodydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn fisol; roedd presenoldeb ynddynt yn uchel a'r Llywodraethwr oedd yn eu harwain. Roedd ffocws newydd ar dasgau megis sicrhau data cyfredol, dadansoddi ffurflenni DIRF, sefydlu grwpiau ffocws ar gyfer nodweddion gwarchoddedig a phenodi cynghorwyr cyfoed. Sefydlwyd grŵp 50+ yn llwyddiannus a daeth saith dyn i fforwm LHDT.
2. Nid oedd y flaenoriaeth hon wedi parhau ac roedd cyfarfodydd yn cael eu canslo neu heb eu trefnu am sawl mis. Canlyniad y sefyllfa hon oedd diffyg cyfeiriad a chyfranogiad. Cynhaliwyd y cyfarfod olaf yn ystod y cyfnod adrodd ym mis Mehefin 2018. At hyn, dim ond dau gynghorwr cyfoed oedd mewn lle yn y carchar gyda phrif gynghorwr yn ymorol â llawer o'r gwaith. Rhaid cymeradwyo'r prif gynghorydd hwn, oedd yn gweithio'n galed iawn i gynorthwyo carcharorion. Roedd deuddeg cynrychiolydd newydd ar fin cael eu hyfforddi, gan gynnwys un i gynrychioli cymuned y Teithwyr.
3. Yn Ebrill 2018 nododd 81% o'r carcharorion eu bod yn Wyn Prydeinig neu o Ogledd Iwerddon a 19% fel Pobl Dduon a Lleafrifoedd Ethnig (BME). Roedd data ar ddosrannu aseiniadau gwaith, addysg, diwydiannau, a gweithgarwch pwrpasol arall o fis Mai 2018 wedi dangos tan-gynrychiolaeth o garcharorion BME mewn rhai meysydd. Carcharorion BME oedd 10% o lanhawyr adain a 12% o'r swyddi a ddosrannwyd mewn diwydiannau, er enghraifft, ond roedd y ffigyrau hyn yn cynrychioli gwell tuedd at ddosbarthiad cyfartal. Nododd 10% o garcharorion mai Moslemaid oeddynt ac roedd lefel dda o ddarpariaeth ysbrydol gan ddau gaplan Moslemaidd. Er mai cyfran isel iawn o boblogaeth y carchar oedd yn Siciaid, ysbeidiol oedd darpariaeth caplaniaid, gan arwain at gwynion gan garcharorion oedd yn credu nad oedd modd iddynt ymarfer eu ffydd.
4. Nid oedd dadansoddiad o ddata ethnigrwydd yn erbyn gwahaniad ar gael. Dangosodd data Y Defnydd o Rym ar gyfer y cyfnod o Ionawr hyd at Awst 23% digwyddiad yn ymwneud â charcharorion o leiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â phoblogaeth carchar o 19%; esboniwyd hyn gan gynnydd mewn digwyddiadau yn ymwneud â charcharorion duon a charcharorion Du Caribiaidd o dras cymysg. Roedd y grŵp hwn yn cynrychioli 7.9% o ymddangosiadau mewn dyfarniadau, tra'n cynrychioli 3.9% o boblogaeth y carchar, o ddefnyddio'r ffigyrau blynyddol diweddaraf oedd ar gael. Byddai'r nodwedd hon yn teilyngu ymchwiliad pellach.  
  
Roedd tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu sawl mater arall fyddai'n haeddu sylw mewn perthynas â rhai grwpiau penodol. Cwynodd teithwyr i gynrhychiolwyr cyfoed bod staff yn eu stereoteipio fel lladron. Roedd y nifer o ddynion oedd yn nodi eu bod yn hoyw/yn drawsryweddol yn sylweddol is na'r ffigwr a ddisgwylid.
5. Nid oedd strwythur ffisgeol CEM Caerdydd wedi gwella ers y flwyddyn flaenorol ac roedd problemau mynediad yn parhau i'r rhai hynny â chyfyngiadau cerdded. Roedd mynediad cadair olwyn i'r Gampfa a'r bloc Addysg yn ddwy enghraifft lle roedd angen darparu ramp neu ddulliau eraill o gael mynediad.
6. Roedd y Bwrdd Monitro Annibynnol yn CEM Caerdydd - aelodau hŷn, gwynion - yn ymwybodol nad oedd yr aelodaeth yn adlewyrchu cymdeithas amrywiol. Roedd ymdrechion yn parhau i annog unigolion o gymunedau BME a phobl iau i wneud cais i ymuno â'r Bwrdd.

- 1) Roedd wyth cell yn yr uned. Roedd yr uned wedi ei staffio gan 16 swyddog ymroddedig a hyfforddedig, a nodwyd eu bod yn ymddwyn mewn dull proffesiynol yn ddieithriad. Roedd nifer o'r staff a benodwyd i'r uned yn ddiweddar yn wynebu talcen caled a hyn wedi achosi ambell fân anhawster wrth gyfathrebu ag aelodau'r Bwrdd; cafodd rhain eu datrys yn gyflym.
- 2) Yn ystod y flwyddyn adrodd, cyfeiriwyd 2381 carcharor ar gyfer dyfarniad, o'i gymharu â 2413 yn ein hadroddiad diwethaf. Ymdriniwyd â'r rhan fwyaf o'r achosion hyn yn fewnol gan Lywodraethwr ar y diwrnod canlynol. Yn ystod y flwyddyn, cyfeiriwyd 223 tramgwydd i'r Dyfarnwr Annibynnol o'i gymharu â 375 yn ein hadroddiad diwethaf; roedd y rhan fwyaf o'r tramgwyddau hyn yn ymwneud â chyffuriau ac ymosodiadau, lle roedd cosbau trymach yn briodol. Gorchmynwyd cyfanswm o 1117 diwrnod ychwangeol yn y ddalfa ar gyfer y tramgwyddau hyn. Y prif categorïau o dramgwyddau oedd wedi arwain at ddyfarniadau oedd bod ag eitem heb ganiatâd (cyffuriau) yn eu meddiant 557, ymddygiad difriol 240 ac anufuddhau i orchymyn cyfreithlon 230.
- 3) Roedd aelodau'r BMA yn eistedd yn rheolaidd mewn dyfarniadau mewnol ac annibynnol, a nodwyd eu bod yn cael eu cynnal yn deg ac yn unol â'r weithdrefn a osodwyd. Un datblygiad cadarnhaol oedd cyflwyno cyfiawnder adferol i ddyfarniadau, lle byddai rhai carcharorion yn derbyn dedfrydau gohiriedig yn gyfnewid am wneud gwaith yn y carchar, megis paentio.
- 4) Roedd carcharorion yn y CSU yn derbyn ymweliadau yn rheolaidd ac roedd aelodau'r Bwrdd yn siarad â phob carcharor wedi ei ddatgloi ac yn breifat oes oedd angen. Nodwyd bod yr uned yn cael ei rheoli'n dda, yn lân ac yn drefnus. Roedd perthnasau da rhwng y staff a'r carcharorion ac roedd yr awyrgylch yn ddigynnwrf ac yn drefnus.
- 5) Roedd aelodau BMA yn mynchu adolygiadau gwahanu, a nodwyd bod y rhain yn cael eu rheoli'n dda. Fodd bynnag, yn aml byddid yn cynnal adolygiadau ar adegau afreolaidd, ac o ganlyniad ni fyddai aelod o'r BMA yn bresennol. Roedd hyn yn peri pryder mewn perthynas â'n gallu i fonitro'r agwedd bwysig hon o weithdrefn carchar.
- 6) Roedd trefniadau mewn llaw i leihau'r atgyfeiriadau i'r CSU. Roedd gweithredu rhaglen OMIC, lle roedd gweithiwr allweddol dynodedig yn cael sgysiau un i un yn rheolaidd gyda charcharorion i wrando arnynt a'u cefnogi, yn ddatblygiad i'w groesawu'n frwd. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cyflwyno prosiect CHCY (CSIP) (Cynllun Herio, Cefnogi ac Ymyriad), lle cynigiwyd cymorth amlasiantaethau i garcharorion anodd ar gyfer eu problemau ymddygiad difrifol.
- 7) Canfuwyd bod materion eraill ynghylch protestiadau budron, ymarfer corff, cawodydd, gwaith papur a gwaith mewn celloedd a ddarparwyd ar gyfer carcharorion tymor hwy yn foddhaol.



## 7 LLETY (gan gynnwys cyfathrebu)

---

1. Roedd llawer agwedd ar lety yn y carchar wedi gwella ers yr adroddiad diwethaf. Roedd timoedd paentio wedi gwneud gwelliant sylweddol i adenydd ac ardaloedd cymunedol, ac roedd mentrau megis "Adain y Mis" yn ffocysu ar yr amgylchedd cyffredinol. Roedd mater lleithder codi yn yr adeilad Gofal Iechyd yn cael sylw hefyd. Croesawyd hefyd dechrau'r rhaglen i gael gwared ar hen gelfi a gwelyau yn y celloedd, er bod y gwelyau newydd yn gul iawn ac yn anghysurus i ddynton mwy o ran maint.
2. Roedd gwelliant o bwys yn nhrefn gyffredinol y carchar. Roedd dychwelyd i drefn llawn-amser o addysg, gwaith a hyfforddiant yn ystod yr wythnos ac amserlen ragweladwy yn ystod y penwythnos wedi arwain at awyrgylch mwy pwrpasol a chadarnhaol. Roedd cyflwyno'r cynllun gweithiwr allweddol yn dderbyniol iawn i'r staff a'r dynion, er bod materion staffio yn cyfyngu ar y cyfle i gyfarfodydd yn rheolaidd. Roedd cyfathrebu rheolaidd ac amserol gyda'r dynion trwy hysbysiadau'r carchar a chyfarfodydd ymgynghori carcharorion, er bod fforymau adain ond yn cyfarfod yn rheolaidd ar adain A ac adain B.
3. Roedd cynnydd o bwys yng ngheisiadau carcharorion mewn perthynas â threfnu ymweliadau a derbyn post, ond serch hyn, roedd y rhain wedi lleihau'n sylweddol adeg yr ysgrifennu. Roedd rheoli'r galw mawr ar y llinell ffôn i drefnu ymweliadau yn broblem barhaus, ond roedd materion staffio wedi dwysáu hyn. Roedd cyfuniad o lefelau staffio gwell, anogaeth i logi ar-lein a menter a groesawyd yn frwd ar ffurf desg logi wedi ei staffio adeg ymweliadau wedi gwella'r gwasanaeth hwn yn fawr. Roedd ceisiadau yn ymwneud â phost yn deillio yn bennaf o benderfyniad i roi llungopi o'r post i garcharorion ac i gadw'r copi gwreiddiol, fel dull o atal cyffuriau rhag dod i mewn i'r carchar trwy bapur wedi ei drwytho. Ar y dechrau cododd nifer o faterion gweinyddol; bu gwelliant yn y sefyllfa wrth i'r system ddod yn fwy cyfarwydd.
4. Roedd aelodau'r bwrdd yn blasu'r bwyd yn rheolaidd ac yn nodi ei fod yn foddhaol, ond nid oedd y rhai oedd yn gweini yn gwisgo hetiau. Roedd yn destun pryder bod llawr y gegin yn malu ac yn dal heb gael sylw; roedd hyn yn fater o hylendid; parhaodd y broblem trwy gydol y cyfnod adrodd.
5. Roedd problemau dwys gyda chynnal a chadw yn parhau; cafodd rhain eu cynnwys hefyd yn yr adroddiad diwethaf. Roedd gan lawer o'r materion hyn effaith fawr ar barch o fewn y carchar. Roedd gwresogi yn broblem o bwys ym Mloc F gydol y gaeaf, lle roedd y gwres ar ben grisiau F1 wedi ei ddiffodd yn llwyr; byddai ei weithio yn rhoi dynion mewn perygl o gael eu llosgi gan y pibellau hynod o boeth ar ben grisiau F3. Roedd ffôn ar F1 heb weithio ers misoedd. Roedd gweithdai 1, 2, 3 a 4 hefyd heb wres gydol y gaeaf. Roedd problemau gyda chawodydd yn parhau, gyda chawodydd allan o wasanaeth yn aml neu heb ddŵr poeth ar Adain A ac Adain F.
6. Roedd yna broblem gyfredol mewn perthynas â rhannu cit, gydag enghreifftiau cyson o ddiffyg cyflenwadau dillad isaf glân, sanau glân a dillad gwely glân. Mae hyn yn fater o barch sylfaenol ac yn bryder parhaus i'r Bwrdd.
7. Mae'n destun pryder mawr bod B1, y landin a ddefnyddir i letya carcharorion agored i niwed, yn cael ei defnyddio fel tramwyfa i ac o'r gweithdai. Ym marn y Bwrdd mae'r trefniant hwn yn amhriodol. Rhaid i ddynton ar yr adain fynd mewn i'w celloedd, tra bod grwpiau o ddynton o'r carchar cyffredinol yn cerdded heibio, gan floeddio yn aml ar eu ffordd. Mae'n bosibl hefyd i'r dynion sydd yn pasio trwy'r landin ddarllen cardiau celloedd y carcharorion sy'n agored i niwed a nodi pwy sy'n cael ei gadw ar yr adain.

## 8 GOFAL IECHYD (gan gynnwys iechyd meddwl a gofal cymdeithasol)

---

1. Roedd y Bwrdd yn parhau i ofidio'n fawr mewn perthynas â gofal iechyd meddwl. Er gwaethaf y galw mawr parhaus am ofal, roedd y carchar yn dal i weithredu gyda tîm mewngymorth prin o staff. Ar gyfartaledd ceir 50 atgyfeiriad y mis i'r tîm. Yn ystod y cyfnod adrodd roedd y tîm wedi gweithredu gydag ond un nyrs gofal iechyd meddwl sylfaenol. Mae lleoedd gwag ar gyfer dwy nyrs gofal iechyd meddwl sylfaenol ac un nyrs gofal eilaidd. Roedd y cyfnodau aros am apwyntiadau gyda staff mewngymorth proffesiynol wedi arwain at lawer o ddynion yn cael eu rhyddhau o'r carchar heb gael eu gweld. Mae'r carchar wedi methu cyrraedd gofynion cyfreithiol Rhan 1 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).
2. Roedd carcharorion oedd yn derbyn gofal yn cael llythyr atgyfeiriad i'w Meddyg Teulu wrth iddynt gael eu rhyddhau neu i'w hatgyfeirio ar gyfer triniaeth iechyd meddwl arall, ond nodwyd achosion lle roedd hyn wedi arwain at ddiffyg parhad mewn gofal a tharfu ar driniaeth. Roedd atgyfeiriad at unedau diogel canolig yn aml yn golygu aros am gyfnodau sylweddol oherwydd prinder lleoedd neu anghytuno ynghylch cyllido. Roedd tri carcharor gawsant eu hanfon i ysbyty meddwl a'u rhoi mewn uned iechyd meddwl rhannol-ddiogel wedi eu remandio yn y carchar cyn sefyll eu prawf am dramgwyddau a gyflawnwyd yn yr uned. Y disgwyl oedd y byddai'r cyfnod remánd yn parhau am sawl mis.
3. O ganlyniad i bwysau'r niferoedd ar lety addas o fewn prif adenydd y carchar, roedd adnoddau cleifion preswyl ar lawr gwaelod yr adeilad yn dal i gael eu defnyddio ar gyfer carcharorion oedd angen llety diogel. Roedd y carchar yn cydnabod bod hyn yn annerbyniol.
4. Yn gyffredinol roedd gwyllo gwely mewn ysbytai allanol yn cael eu rheoli'n dda, er bod darparu staff ar eu cyfer yn effeithio ar niferoedd swyddogion a gweithrediadau o fewn y carchar. Roedd apwyntiadau Meddyg Teulu yn digwydd fel mater o drefn mewn clinigau yn yr adain gofal iechyd a thaith wythnosol o gwmpas y ward i gleifion preswyl. Roedd carcharorion difrifol wael yn cael eu gweld ar yr adenydd hefyd. Yn y tri mis hyd at Awst 2018 roedd y cyfnod aros am apwyntiad Meddyg Teulu fel mater o drefn yn 7 - 22 diwrnod, a'r cyfnod aros ar gyfer apwyntiadau optegydd yn yr un cyfnod o dri mis rhwng 42 a 61 diwrnod. Roedd y cyfnod aros am apwyntiad fel mater o drefn gyda deintydd rhwng 48 a 66 diwrnod ac roedd yn destun pryder nodi bod y cyfnod ond ychydig yn llai ar gyfer apwyntiadau brys. Roedd y ffigyrau am fethu apwyntiad gyda'r Meddyg Teulu rhwng 27 a 46 y mis a thua 30 ar gyfer apwyntiad gyda'r deintydd.
5. Cynhaliwyd Grŵp y Feteraniaid yn fisol â nifer o asiantaethau allanol yn bresennol yn rheolaidd. Roedd y grŵp hwn yn darparu gweithgarwch pwysig, ond ychydig o garcharorion oedd yn mynychu; weithiau roedd mwy o weithwyr elusennau yno nag o garcharorion.
6. Roedd y perthnasau gwaith rhwng darparwyr iechyd a'r carchar yn gydweithredol a chyfarfodydd yn digwydd bob tri mis. Yn aml nid oedd polisi rhagnodi'r Bwrdd Iechyd lleol yn cyfateb ag ymarferion y tu allan i'r carchar ac yn arwain at gwynion rheolaidd gan y carcharorion.
7. Mae'r rhan fwyaf o staff gofal iechyd yn gydwybodol a gweithgar, weithiau mewn amgylchiadau anodd iawn, a maent yn haeddu clod am eu hymdrechion i gynnal gofal o safon uchel i garcharorion.

## 9 ADDYSG A GWEITHGAREDDAU ERAILL

---

1. Yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd roedd CEM Caerdydd wedi gweithredu ar drefn gyflawn, wedi iddynt ddiodeff trefn gyfyngedig am amser hir cynt; roedd hyn wedi cael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysgol y carchar. Roedd dychwelyd i drefn gyflawn wedi gweld cynnydd o bwys yn y niferoedd oedd yn mynychu'r dosbarthiadau, yn caniatáu cyflwyno rhaglen lawnach o lawer a gwelliant mewn agweddau at ddysgu.
2. Roedd darpariaeth addysgol yn amrywiol ac yn hygyrch i'r carcharorion hynny oedd yn dewis cyfranogi yn weithredol. Cafodd bwlch mawr yn y ddarpariaeth ei lenwi gydag ailddechrau paentio ac arlunio. Roedd carcharorion yn cynhyrchu gwaith o safon sylweddol, â chynnwys creadigol o'r sgiliau llythrennedd a rhifedd gofynnol. Roedd anghenion dysgu carcharorion newydd yn cael eu hasesu o fewn deuddydd iddynt gyrraedd y carchar. Yn dilyn hyn roedd carcharorion yn cael eu cyfweld gan diwtor neu gynghorwr cyfoed cyn cael eu gosod mewn Addysg neu weithgaredd arall. Mae asesiadau ar-lein ar gael mewn Saesneg a Mathemateg ac wedi eu hunan-gyfeirio.
3. Mae darparu addysg i'r boblogaeth dros-dro yn her, gan ei gwneud yn hanfodol i'r cyrsiau ar gynnig fod yn unedau byrion, hunan-gyfeiriedig, wedi eu hachredu gan Fyrddau Arholi, gan gynnwys City and Guilds. Roedd yr agwedd hon ar waith y carchar wedi ei reoli'n dda. Roedd yna bartneriaethau hefyd gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog.
4. Roedd cefnogaeth dda ar gael i garcharorion oedd angen help gyda llythrennedd a rhifedd. Roedd llawer o fentrau ar gael i hyrwyddo llythrennedd gan gynnwys cynllun darllen Troi Tudalennau Ymddiriedolaeth Shannon. Cynlluniwyd hwn i helpu carcharorion wella eu sgiliau llythrennedd, gyda help cynghorwr.
5. Roedd aelodau'r Bwrydd yn adrodd yn gyson am awyrgylch da yn yr ystafelloedd dysgu gyda llawer o ryngweithio cadarnhaol rhwng carcharorion a staff. Nodwyd bod carcharorion yn ymwneud yn weithredol mewn gweithgareddau dysgu.
6. Roedd presenoldeb rhwng 72-77% mewn gweithgareddau addysgol yn galonogol. Y teimlad oedd bod dychwelyd i drefn gyflawn wedi cael effaith gadarnhaol ar garcharorion ac wedi arwain at leihad mewn anfon o ddosbarthiadau.
7. Ym mis Gorffennaf nodwyd bod gweithgareddau cerdd wedi eu hatal oherwydd materion staffio ac nid oedd y cwrs Tools for Change, oedd yn boblogaidd gyda carcharorion, wedi rhedeg am gyfnod estynedig oherwydd absenoldeb staff. Testun pryder arall oedd terfynu rhaglen Sgiliau Bywyd i garcharorion (B1) agored i niwed. Nid oedd rhaglen benodol i fynd i'r afael ag anghenion y dynion hynny am y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd. Roedd yn ymddangos bod y cyfnod eithafol a gymerwyd i gymryd lle staff fel petai'n peri amhariad o bwys i'r rhaglen addysg.

1. Dychwelodd y carchar i drefn gyflawn o fis Hydref 2017, wedi iddynt weithredu trefn gyfyngedig gydol y flwyddyn flaenorol. Roedd ychwanegu at y gweithgareddau wedi digwydd yn raddol, ond roedd croeso i'r cynnydd yn y lefel o weithgarwch yn ystod y flwyddyn. Roedd ystod eang o weithgareddau ar gael, gan gynnwys glanhau'r adain, gwaith yn y gegin, pacio brecwast, golchi dillad ac ailgylchu, yn ogystal â thimoedd paentio a garddio.
2. Roedd dynion oedd yn gwrthod gwaith heb reswm dilys, yn dilyn tri digwyddiad tebyg, yn cael eu rhoi ar statws IEP Sylfaenol, er mwyn gwrthbwysu tuedd i wrthod. Mae hyn wedi helpu cynyddu cyfranogiad drwyddo draw.
3. Roedd lefelau presenoldeb yn uwch na 70% gydol y flwyddyn, â'r duedd am i fyny yn ystod yr haf (e.e. ym misoedd Gorffennaf ac Awst roedd presenoldeb tua 80%). Roedd rhesymau dros beidio â chyfranogi neu gael eu taflu allan o weithgaredd (e.e. diogelwch) yn cael eu montiro a'u hadrodd ac roedd y lefelau o absenoldeb annerbyniol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill ac Awst yn gyson ar tua 5%. Roedd hyn yn cymharu'n ffafriol â'r un cyfnod llynedd pan oedd absenoldebau rhwng 8% ac 11%.
4. Cynhaliwyd cwrs Street Works, gyda chymhwyster cydnabyddedig, rhwng Mehefin a Gorffennaf, ac roedd yn boblogaidd. Roedd cwrs arall ar y gweill ar gyfer y flwyddyn adrodd newydd. Roedd cynnal a chadw beiciau a gweithdai trwsio cerbydau yn dal i fod yn boblogaidd; roedd y ddau gwrs yn darparu cymwysterau a gydnabyddir ym myd diwydiant.
5. Gweithgaredd llwyddiannus arall oedd gwaith pacio ar gyfer cynnyrch taenu archfarchnad. Roedd nifer uchel o ddynion ynghlwm â'r gwaith hwn, a natur y gwaith yn daparu peth gweithgaredd yn y gell ac ar yr adain i bobl na fedrent gyrraedd y gweithdai.
6. Un maes oedd yn destun pryder oedd y diffyg cyfleoedd i ddynion B1 (adain y carcharorion agored i newid) gael mynediad i gynifer o weithgareddau pwrpasol â phoblogaeth gyffredinol y carchar. Adroddwyd am hyn ar adegau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Adroddwyd nad oedd dynion B1 yn cael mynediad i waith nac ymarfer corff. Y prif weithgaredd oedd ar gael i ddynion B1 oedd gwaith garddio, gyda thua 15 lle bob dydd. Roedd llawer o'r dynion wedi ymateb yn dda i hyn ac roedd o fudd iddynt bod cymwysterau garddwriaethol, a gydnabyddir yn allanol, ar gael. Ond roedd pryder bod y dynion hyn yn dioddef camdriniaeth ar lafar gan garcharorion eraill oedd yn bloeddio arnynt o ffenestri'r ystafelloedd aros meddygol. Yn mhllith y rhai hynny nad oeddynt yn gwneud gwaith garddio, roedd problem hirhoedlog diffyg ymarfer corff yn destun pryder, gan fod y carchar yn ei chael yn anodd paratoi'n ddigonol ar eu cyfer rhwng dydd Llun a dydd Iau. Nid oedd y mater hwn wedi ei ddatrys ym mis Awst.
7. Yn ogystal â dynion B1, adroddwyd bod y dynion ar F1 (yr adain adferiad cyffuriau) a'r dynion ar R 45 yn wynebu materion tebyg gyda diffyg ymarfer corff yn ystod saith mis olaf y flwyddyn. Roedd arweinwyr y carchar yn ymwybodol o'r mater ac yn ymchwilio i ffyrdd i wella'r sefyllfa.
8. Roedd cyflwyno gweithwyr allweddol yn ail rhan y flwyddyn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgarwch pwrpasol. Roedd y nodiadau achosion yn darparu darlun gwell o'r unigolion i'r Hyb Gweithgareddau ac, ar y cyd â'r gweithwyr allweddol, roeddynt yn ceisio gosod dynion mewn swyddi priodol.

## 11 PARATOI AR GYFER ADSEFYDLU

---

1. Un fenter â chanlyniadau cadarnhaol iawn oedd cael darpar gyflogwyr yn y carchar i gyfweld carcharorion gyda'r bwriad o gynnig gwaith iddynt wedi iddynt gael eu rhyddhau. Roedd y rhyngweithio hyn gyda chyflogwyr ar sail gwaith wedi profi'n fuddiol iawn i'r dynion gan ei fod yn rhoi profiad iddynt o'r hyn a ddisgwylir ganddynt yn y gweithle. Roedd y prosiect hwn hefyd yn rhoi cyfle i garcharorion gael tystysgrifau ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu, megis tocynnau lechyd a Diogelwch.
2. Ym mis Ionawr 2018 dechreuodd BMA Caerdydd adolygiad thematig mewn perthynas â pharatoi ar gyfer rhyddhau. Paratwoyd adroddiad ar y canfyddiadau oedd yn cynnwys sawl testun pryder.
3. Roedd yn ymddangos bod gwahaniaeth rhwng ystadegau swyddogol ac atgofion carcharorion. Roedd y gyfradd gwblhau ar gyfer y dogfennau priodol yn uchel; roedd y gyfradd gwblhau ar gyfer Offeryn Sgrinio Sylfaenol y Ddalfa 1 yn y chwe mis hyd at Tachwedd 2017 yn 89%. Er hyn, yn ystod cyfweiliadau gyda 34 carchar, er ein bod yn cydnabod nad oedd rhai carcharorion yn dymuno ymwneud â'r broses, roedd rhai heb fod yn ymwybodol ohono, yn methu cofio cyfranogi neu yn annelwig ynghylch eu hymwneud. Roedd y gyfradd gwblhau ar gyfer Offeryn Sgrinio Sylfaenol y Ddalfa 2 yn yr un cyfnod yn 100%. Yn ystod cyfweiliadau, serch hynny, dim ond 26% o garcharorion oedd yn cofio cwblhau OSSyDd2.
4. Cael cymorth gyda chanfod llety oedd y maes mwyaf arwyddocaol yn y broses adsefydlu. Cefnogwyd hyn gan ystadegau'r carchar, yn ogystal â'n samplu ni. O'r 23 dyn a gyfwelwyd ar ddiwrnod eu rhyddhau, 13 yn unig oedd â lle pendant i gysgu ynddo y noson honno. Roedd hyn yn destun pryder mawr am fod y dynion hyn yn cael eu rhyddhau yn ystod cyfnod oer iawn yn y gaeaf. Un enghraifft eithafol oedd dyn yn cael ei ryddhau gyda gwarant teithio i Coventry, 44c yn ei boced a nulle i gysgu'r noson honno. Roedd monitro yn dilyn hyn yn dal i ddangos patrwm bod hyd at hanner y dynion oedd wedi eu rhyddhau bob dydd heb lety. Gwnaed apwyntiadau i'r dynion hyn wneud cais am lety ar ddiwrnod eu rhyddhau, ond roeddynt yn amlwg yn disgwyl na fyddai llety'n cael ei gynnig. O blith y dynion oedd yn dweud bod ganddynt lety adeg eu rhyddhau, roedd nifer yn "syrffio soffâ" neu'n aros mewn hostel dros dro.
5. Yn gyffredinol roedd y dynion nad oedd ganddynt lety yn disgwyl cael eu hanfon i hostel Canolfan Huggard. Nododd nifer o ddynion eu pryderon ynghylch yr hostel, gan ddweud byddai pwysau arnynt i gymryd cyffuriau, y byddent yn wynebu trais neu byddai eu heiddo'n cael ei ddwyn.
6. Roedd yn amlwg o'r data a gasglwyd bod prinder llety wrth ryddhau yn ffactor arwyddocaol mewn ail-droseddu. Roedd llawer o ddynion yn hollol glir y byddent yn dychwelyd i'r carchar yn fuan, rhai wedi iddynt droseddu yn unswydd, er mwyn cael llety a phrydau bwyd rheolaidd yn y carchar. Ac roedd staff St Giles o'r farn bod diffyg llety yn brif ffactor mewn ail-droseddu, gydag hyd at draean y dynion yn y carchar yn ceisio cael help i chwilio am lety ar unrhyw adeg wrth iddynt gael eu rhyddhau. Cyflwynodd y Bwrdd gopi o'r canfyddiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru; derbyniodd ymateb cadarnhaol iawn. Adeg yr ysgrifennu roedd cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng y Bwrdd a swyddogion y Cynulliad.

## B Adran - Gwaith y Bwrdd

---

<b>YSTADEGAU'R BWRDD Adroddiad 2017/2018</b>	
Nifer Aelodau'r Bwrdd a Argymhellir	17
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd	11
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	11
Cyfanswm y nifer o ymweliadau â'r Sefydliad	557
Cyfanswm y nifer o ddigwyddiadau adolygu gwahanu a fynychwyd	45

## C Adran - Ceisiadau

Cod	Testun	Y flwyddyn adrodd gyfredol	Y flwyddyn adrodd flaenorol
A	Llety gan gynnwys golchfa, dillad, ymolchiadau	37	5
B	Disgyblaeth gan gynnwys dyfarniadau, IEP, sancsiynau	5	1
C	Cydraddoldeb	10	4
D	Gweithgarwch pwrpasol gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, llyfrgell, cyfundrefn, amser allan o'r gell	33	25
E 1	Llythyron, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd	86	21
E 2	Cyllid gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant	18	13
F	Bwyd a cheginau	5	9
G	Iechyd gan gynnwys gofal corfforol, meddyliol a chymdeithasol	44	38
H 1	Eiddo o fewn y sefydliad hwn	17	14
H 2	Eiddo yn ystod trosglwyddo neu mewn sefydliad neu leoliad arall	19	12
H 3	Cantîn, rhestr adnoddau, catalog(au)	7	12
I	Rheoli dedfrydau gan gynnwys HDC, ROTL, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio	34	26
J	Pryderon staff/carcharorion gan gynnwys bwlio	40	26
K	Trosglwyddiadau	21	35
	<b>Cyfanswm y nifer o geisiadau BMA</b>	438	332